

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Artaith yn y DU:

adroddiad diweddar

Crynodeb gweithredol a rhestr lawn
o argymhellion

Mai 2019



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Crynodeb gweithredol

Bydd Llywodraeth y DU yn cael ei harchwilio'n fuan gan Bwyllgor y CU yn erbyn Artaith mewn perthynas â gweithredu ei rhwymedigaethau dan Gonfensiwn y CU yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (CAT). Er mwyn paratoi ar gyfer yr archwiliad, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi adroddiad yn nodi elfennau allweddol o ran y gyfraith, polisïau neu arferion yng Nghymru a Lloegr nad ydynt, o bosibl, yn cydymffurfio â CAT. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r holl faterion yng Nghymru a Lloegr a materion yr Alban a neilltuwyd i Senedd y DU.

Mae'r adroddiad yn cynnwys 14 pennod, sy'n canolbwyntio ar faterion polisi ar wahân a lleoliadau y gallai artaith neu driniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol ddigwydd ynddynt. Thema sy'n ailadrodd mewn sawl pennod yw ein pryder ynglŷn â'r anghydymffurfiaeth bosibl â'r ddyletswydd i gynnal ymchwiliad effeithiol a ymgorfforir yn Erthygl 12 CAT. Mae'r pryder hwn yn ymwneud yn benodol ag ymateb Llywodraeth y DU i honiadau o arteithio a/neu gam-drin:

- carcharorion tramor
- pobl sy'n cael eu cadw mewn canolfannau symud mewnfudwyr
- plant ac oedolion mewn carcharau ac yn y ddalfa
- pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- dioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, trosedd casineb a cham-drin plant yn rhywiol.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn [yma](#). Isod, rydym wedi nodi crynodeb o'n prif bryderon.

1. Ymgorffori CAT yn y gyfraith ddomestig

Nid yw'r DU wedi ymgorffori CAT yn uniongyrchol yn y gyfraith ddomestig, ac mae risgiau posibl i ddiogelu hawliau dynol o ran yr ansicrwydd parhaus ynglŷn â dyfodol deddfwriaeth hawliau dynol, yn ogystal â bwriad y DU i adael yr UE. Byddai lleihau ar egwyddor alldiriogaethol Deddf Hawliau Dynol 1998 yn mynd yn groes i rwymedigaethau rhyngwladol y DU dan CAT, sy'n ymestyn i weithrediadau'r lluoedd Prydeinig tramor. Mae anghysondebau'n parhau i fodoli rhwng rhai darpariaethau cyfreithiol domestig a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU dan CAT, gan gynnwys cadw 'amddiffyniadau' ar gyfer artaith yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

2. Carcharorion tramor

Mae camau a gymerir i ymchwilio i honiadau o gyfraniad y DU mewn achosion o arteithio a cham-drin carcharorion tramor yn parhau i fod yn annigonol o ran y ddyletswydd ymchwilio yn Erthygl 12 CAT. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch a setliad o hawliadau yn erbyn milwyr Prydeinig unigol a wasanaethodd yn Irac. Mae'r 'Canllawiau cyfun i swyddogion cudd-wybodaeth a phersonél sy'n gwasanaethu ar garcharu a chyfweld â charcharorion tramor' yn dal i fod yn aneglur, yn enwedig o ran y rhwymedigaeth i ddod â gweithrediadau ymchwilio i ben pan fydd 'risg/risg difrifol' o artaith.

3. Effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol

Mae'r rhan fwyaf o feysydd y gyfraith lle mae hawliadau yn debygol o godi am amddiffyniad yn erbyn artaith neu gamdriniaeth - gan gynnwys problemau teuluol lle mae perygl o gam-drin domestig - yn parhau o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil. Fodd bynnag, yn sgil mabwysiadu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 cafwyd gostyngiad annisgwyl yn nifer y grantiau llwyddiannus a roddwyd ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn achosion o gam-drin domestig. Mae'r Ddeddf hefyd wedi eithrio rhai categorïau o bobl sydd mewn risg penodol o gamdriniaeth, gan gynnwys ymgeiswyr diffyg dinasyddiaeth. Nid yw'r cynllun ariannu achosion eithriadol wedi gweithredu fel y disgwyliwyd ac mae'n bosibl nad yw'n cynnig y 'rhwyd ddiogel' ar gyfer materion sydd fel arall y tu hwnt i gwmpas cymorth cyfreithiol.

4. Masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern

Mae gwendidau yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn rhwystro ymdrechion Llywodraeth y DU wrth atal a mynd i'r afael â masnachu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys camau diogelu annigonol o ran peidio ag erlyn dioddefwyr sy'n blant, diffyg dyletswydd gyfreithiol benodol i ddarparu cymorth i ddioddefwyr a dim digon o waith unioni i ddioddefwyr masnachu pobl. Mae pryderon yn parhau ynglŷn â phwerau ac adnoddau'r Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol.

5. Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Mae Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU yn cynnwys 21 corff statudol sy'n monitro sut mae'r bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn cael eu trin mewn ystod o leoliadau. Fodd bynnag, nid oes deddfwriaeth sy'n nodi mandad y Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol, na gwarantiadau statudol o'i annibyniaeth, ac mae'r adnoddau sydd ar gael i ysgrifenyddiaeth y Mekanwaith er mwyn cydlynu gwaith ei aelodau'n gyfyngedig iawn.

6. Amodau carchariad

Mae'r amodau mewn carcharau, yr ystad warchodol ieuenctid, canolfannau cadw mewnfudwyr a chanolfannau cadw iechyd meddwl yn annigonol ac mewn perygl o fynd yn groes i'r rhwymedigaeth i gymryd camau ataliaeth effeithiol mewn perthynas ag artaith a chamdriniaeth.

6.1 Carcharau a'r ystad warchodol ieuenctid

Mae'r amodau yng ngharcharau i oedolion wedi gwaethygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cynnydd yng nghyfraddau gorlenwi a lefelau cynyddol o hunan-niwed ac ymosodiadau. Mae nifer y marwolaethau yn y ddalfa nad ydynt yn naturiol yn parhau i fod yn bryder difrifol ac mae'n arwain at gwestiynau ynglŷn â sut mae carcharorion â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu trin. Mae trais yn broblem gynyddol ar draws yr ystad warchodol ieuenctid. Mae carcharorion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gael cynrychiolaeth anghymesur yn yr ystad carcharau ac mae hynny'n digwydd yn gynyddol mewn rhannau'r ystad warchodol ieuenctid.

6.2 Canolfannau cadw mewnfudwyr

Mae'r arfer o gadw mewnfudwyr am gyfnod amhenodol yn mynd yn groes i safonau hawliau dynol rhyngwladol. Nid yw'r mesurau presennol i nodi a diogelu unigolion sydd mewn perygl penodol o niwed mewn canolfannau cadw mewnfudwyr, gan gynnwys goroeswyr artaith, yn gweithredu yn ôl yr hyn a fwriadwyd. Mae mewnfudwyr yn y canolfannau cadw sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol yn wynebu rhwystrau penodol at arddel eu hawliau i herio'r penderfyniad i'w cadw.

6.3 Canolfannau cadw iechyd meddwl

Mae diffyg buddsoddiad a gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned yn cyfrannu at gyfraddau cadw cynyddol yn sgil iechyd meddwl. Mae tystiolaeth o anghymesuredd ethnig mewn achosion gorfodol o gadw pobl dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, sefydliadoli oedolion a phlant ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth mewn lleoliadau seiciatrïg am gyfnodau parhaus ynghyd â'r diffyg camau diogelu yn erbyn amddifadu pobl yr ystyrir i fod â diffyg gallu o'u rhyddid, yn peri pryder i'r Comisiwn.

7. Defnyddio ataliaeth

Defnyddir lefel uchel o rym ar garcharorion yn yr ystad i oedolion. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y defnydd o ataliaeth yn yr ystad warchodol ieuencid, gan gynnwys ataliaeth sy'n achosi poen ac arwahanu. Mae'r heddlu'n cynyddu'r defnydd o'r Taser a mygydau poeri ar blant. Caiff grym gormodol ei ddefnyddio mewn modd anghymesur ar bobl o leiafrifoedd ethnig a chaiff ataliaeth ei defnyddio'n anghyfreithlon ar oedolion a phlant ag anableddau dysgu mewn lleoliadau iechyd meddwl ac addysg. Mae bylchau sylweddol mewn arferion o gofnodi a monitro'r defnydd o ataliaeth. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno cwynion ynglŷn â chamddefnyddio ataliaeth yn ddigon agored ac mae diffyg atebolrwydd.

8. Mesurau gwrth terfysgaeth

Mae gan sawl pŵer gwrth terfysgaeth yn y DU y potensial i erydu camau diogelu pwysig sydd eu hangen i atal artaith a thriniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol arall. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i gwestiynu a chadw unigolion mewn meysydd awyr a phwerau heb yr angen am sail resymol o amheuaeth, y cyfnod o 14 diwrnod i gadw unigolion yr amheuir o fod yn derfysgwyr cyn eu herlyn a'r pŵer i atal gwybodaeth berthnasol mewn gweithdrefn berthnasol gaeedig, hyd yn oed pe bai hyn yn datgelu tystiolaeth o achosion o dorri hawliau dynol, megis artaith.

9. Cam-drin pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Cymerwyd camau i wella camau diogelu gofal iechyd a mecanweithiau esgeulustod ers cyhoeddi adroddiad Ymchwiliad Francis yn 2013. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion adrodd a Changen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB). Cymerir

camau i gryfhau elfen annibynnol y corff hwn, ond nid yw'r rhain yn ddigonol ar hyn o bryd o ran gofynion ymchwilio Erthygl 12 CAT. Yn sgil gostyngiadau yng nghyllid y llywodraeth ynghyd â chynnydd yn y galw am ofal, nid yw nifer gynyddol o bobl hŷn neu bobl anabl yn derbyn y gwasanaethau gofal sydd eu hangen arnynt.

10. Gweithdrefnau lloches a mewnfudo

10.1 Defnyddio addewidion diplomyddol

Gallai ymrwymiad Llywodraeth y DU i ganlyn allfudo ag addewidion (DWA), hyd yn oed mewn achosion lle efallai nad yw'n bosibl ceisio monitro annibynnol, yn mynd yn groes i egwyddor dim dychwelyd Erthygl 3 CAT.

10.2 Nodi a phennu diffyg dinasyddiaeth

Nid yw'r swyddogaeth o nodi a phennu diffyg dinasyddiaeth yn gweithredu yn ôl yr hyn a fwriadwyd, yn enwedig ar gyfer unigolion mewn canolfannau cadw mewnfudo. Er bod gan garcharorion yr hawl i wneud cais am gydnabyddiaeth o ddiffyg dinasyddiaeth, mae natur drafferthus y broses ymgeisio yn ei gwneud yn anodd iddynt, yn enwedig os nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol.

11. Trais yn erbyn menywod a merched

Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cymryd camau i wella'r ffordd y caiff troseddau rhywiol, trais domestig a'r hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd' eu trin. Fodd bynnag, mae cyfraddau atgyfeirio ac erlyn yn parhau i fod yn isel, sy'n arwain at gwestiynau ynglŷn â gallu'r system cyfiawnder troseddol i ddwyn troseddwr trais yn erbyn menywod a merched i gyfrif. Nid yw nifer helaeth goroeswyr trais yn erbyn menywod a merched yn cael eu hamddiffyn oherwydd diffyg cyllid ar gyfer llochesau a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol.

12. Cam-drin plant yn rhywiol

Mae canfyddiadau ymchwiliadau annibynnol diweddar wedi datgelu rhwystrau systematig at atal troseddau rhywiol yn erbyn plant ac o ran ymchwilio i gyhuddiadau dioddefwyr. Mae mentrau polisi diweddar, gan gynnwys canllawiau newydd i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin rhywiol sy'n blant yn cael iawndal, yn gamau yn y cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae diffyg arweinyddiaeth a chyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol ymhlith y materion sy'n atal cynnydd yn y maes hwn.

13. Trosedd casineb

Er bod anghysondebau yn parhau o ran y modd y mae'r heddlu'n cofnodi trosedd casineb, mae gwelliannau yn arferion yr heddlu wedi cyfrannu at gynnydd blynyddol yn nifer yr achosion o drosedd casineb sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu ers 2013. Serch hynny, ychydig iawn o achosion sy'n arwain at erlyniad a cholffarnau llwyddiannus. Mae'r rhwystrau at ymchwilio i achosion o drosedd casineb yn effeithiol yn cynnwys fframwaith deddfwriaethol rhy gymhleth, diffyg cymorth i ddioddefwyr a diffyg hyfforddiant ar drosedd casineb i'r heddlu ac erlynwyr.

14. Isafswm oedran cyfrifoldeb troseddol

Mae oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr tipyn yn is nag yn nifer o wledydd Ewropeaidd eraill ac mae'n anghyson â'r safonau a dderbynnir yn rhyngwladol. Dylai'r oedran cyfrifoldeb troseddol gael ei godi'n sylweddol. Dylai'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar les ar gyfer ymdrin ag ymddygiad niweidiol plant dan oedran cyfrifoldeb troseddol gael eu hehangu er mwyn delio â'r niferoedd ychwanegol, a dylai fod ganddynt gamau diogelu addas.

Rhestr lawn o argymhellion

1. Ymgorffori'r Confensiwn yn erbyn Artaith (CAT) yn y gyfraith ddomestig

Wrth i'r DU gwblhau gadael yr UE, dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle bo'n berthnasol, sicrhau:

- Nid oes unrhyw atchweliad o ran parchu, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig.
- Nid yw colli arian yr UE yn tanseilio seilwaith cydraddoldeb a hawliau dynol y DU, gan gynnwys yr arian prin sydd ar gael i wasanaethau arbenigol, fel y rheini sy'n cefnogi menywod sydd wedi goroesi trais a cham-drin domestig.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Cymryd camau i ymgorffori holl ddarpariaethau CAT yng nghyfraith ddomestig y DU, gan gynnwys drwy ddiddymu is-adran 134(5)(b)(iii) Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 sy'n caniatáu dibynnu ar safonau artaith is sy'n gweithredu y tu allan i'r DU.
- Comisiynu adolygiad annibynnol i ystyried ffyrdd o sicrhau bod yr amddiffyniad cyffredinol ar gyfer arteithio yn adran 134(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn cael ei ddiffinio a'i ddefnyddio ymhellach mewn sefyllfaoedd eithriadol lle mae'r amddiffyniad yn briodol ac yn angenrheidiol yn y dewis olaf.
- Mewn unrhyw ystyriaeth yn y dyfodol o gymhwysiad tiriogaethol y Ddeddf Hawliau Dynol, derbyn bod ei rwymedigaethau mewn cyfraith ryngwladol dan CAT yn ymestyn i weithrediadau lluoedd Prydain dramor ac i wladolion tramor pan fyddant o dan awdurdodaeth de facto y DU.

Wrth i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall ddatblygu a diogelu hawliau dynol ymhellach yng Nghymru, dylai:

- Ystyried y camau y gall eu cymryd i ymgorffori unrhyw ddarpariaethau perthnasol CAT yn neddfwriaeth Cymru.

2. Carcharorion tramor

Er mwyn bodloni'r ddyletswydd ymchwiliol yn Erthygl 12 y CAT, dylai Llywodraeth y DU sefydlu ymchwiliad llawn, annibynnol, dan arweiniad barnwyr i honiadau o gyfranogiad Prydain, gan gynnwys trwy gydgyllwynio, wrth gam-drin carcharorion a gedwir dramor. Dylai'r ymchwiliad:

- Cael mynediad at dystion allweddol er mwyn sicrhau tystiolaeth berthnasol.
- Meddu ar bwerau digonol i ddwyn i gyfrif swyddogion diogelwch a chudd-wybodaeth unigol sydd ar fai.
- Archwilio materion systemig, gan gynnwys diffygion mewn polisi, hyfforddiant neu oruchwyliaeth fel bod y gwersi a ddysgwyd yn gallu llywio ymarfer yn y dyfodol.

Wrth ystyried cynigion i adolygu'r canllawiau cyfunol, dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau nad oes unrhyw amwysedd o ran ystyr risg/risg ddifrifol,
- Ei gwneud yn ofynnol bob amser i bersonél cudd-wybodaeth a diogelwch Prydain roi'r gorau i unrhyw ymgysylltiad â charcharorion sydd yng ngofal gwasanaethau cudd-wybodaeth tramor lle mae perygl o arteithio neu gam-drin, a
- Egluro na all y Gweinidog awdurdodi unrhyw beth sy'n groes i gyfraith ryngwladol.

3. Effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder

Rydym yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd i ddatblygu materion tystiolaeth trais domestig, plant ar eu pen eu hunain a phlant ar wahân a chwestau. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â'r effaith negyddol y mae LASPO yn ei chael ar fynediad at gyfiawnder a meddyginiaethau effeithiol ar gyfer rhai categorïau o unigolion sydd wedi dioddef cam-drin, dylai Llywodraeth y DU:

- Adolygu hygyrchedd cymorth cyfreithiol yn barhaus i bobl a allai fod mewn perygl penodol o gael eu cam-drin, gan gynnwys mewn perthynas â materion mewnfudo a thrais domestig. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod yr adolygiad o gymhwysedd ariannol a mesurau arfaethedig i wella ymwybyddiaeth o gymorth cyfreithiol yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i fynediad i'r grwpiau hyn.
- Cyflwyno cynigion i fynd i'r afael â diffygion y cynllun ECF, gan gynnwys cymhlethdod y broses ymgeisio, i sicrhau nad yw pobl sydd mewn perygl

penodol o gam-drin yn wynebu rhwystrau i ariannu mewn achosion lle na fyddai cymorth cyfreithiol ar gael fel arfer.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Ystyried argymhellion y Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru sy'n ceisio gwella mynediad at gyfiawnder a chymorth cyfreithiol, pan gânt eu cyhoeddi yn 2019.

4. Masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod meddyginiaethau effeithiol ar gael yn y gyfraith ac yn ymarferol ar gyfer pob dioddefwr masnachu pobl ac ecsbloetio, beth bynnag fo'u statws cyfreithiol, gan gynnwys plant sydd wedi bod yn rhan o weithgareddau llinellau sirol a gweithwyr domestig ar fisâu tymor byr.
- Wrth ymateb i'r adolygiad annibynnol sydd ar y gweill o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mynd i'r afael â'r ystod lawn o bryderon a godwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys hawliau cymorth dioddefwyr a materion eraill sydd ar hyn o bryd y tu allan i gylch gorchwyl yr adolygiad.

5. Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau bod gan y Mekanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) fynediad i bob man cadw a'u cyfarpar a'u cyfleusterau, gan gynnwys manau cadw tramor a reolir gan y DU, i archwilio'r driniaeth o bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn rheolaidd.
- Cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau a diogelu annibyniaeth yr NPM a darparu adnoddau digonol i ganiatáu gweithredu ei mandad yn effeithiol yn unol â gofynion yr OPCAT.

6. Amodau carchariad

6.1. Carchardai a'r ystad warchodol ieuenctid

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle y bo'n berthnasol:

- Mynd i'r afael â gorlenwi mewn carchardai oedolion trwy fuddsoddi mewn dewisiadau amgen priodol yn lle carcharu ac ehangu mynediad i wasanaethau cyswllt a dargyfeirio, gan sicrhau ar yr un pryd nad yw pobl â

chyflyrau iechyd meddwl dan bwysau gormodol i dderbyn triniaeth iechyd meddwl er mwyn osgoi'r ddalfa, a bod gofyn rhoi caniatâd dilys i driniaeth.

- Gwella darpariaeth ac argaeledd gwasanaethau iechyd meddwl yn yr ystad warchodol i oedolion ac ieuenctid – gan gydnabod y materion gwahanol y mae menywod, gan gynnwys menywod trawsrywiol, plant a phobl sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu – i atal hunanladdiad a hunan-niwed, ac i hwyluso ailsefydlu.
- Cyflwyno rhwymedigaeth statudol ar garchardai a sefydliadau carcharol i ieuenctid i ymateb i argymhellion o ymchwiliadau i farwolaethau yn y ddalfa trwy gyhoeddi cynllun gweithredu.
- Sicrhewch fod plant yn cael eu cadw fel cam olaf yn unig ac am yr amser byrraf posibl. Ni ddylid cadw plant mewn lleoliadau tebyg i garchardai – ond mewn amgylcheddau diogel a phriodol, yn agos at eu teuluoedd, a dylid eu cefnogi gyda nifer ddigonol o staff medrus ac arbenigol sy'n gallu diwallu eu hanghenion.

6.2. Cadw mewnfudwyr

Dylai Llywodraeth y DU:

- Cyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gadw mewnfudwyr yn unol ag argymhellion yr UNHCR¹ a sicrhau mai dim ond fel mesur gweinyddol pan fydd popeth arall yn methu y caiff eu cadw.
- Sicrhau polisïau goruchwyllo, monitro a chwynion effeithiol yn yr ystad warchodol i fewnfudwyr i sicrhau bod unrhyw gamdriniaeth yn cael ei nodi ar unwaith, bod camau'n cael eu cymryd yn erbyn y bobl sy'n gyfrifol, a bod gwersi yn cael eu dysgu i atal unrhyw gam-drin pellach rhag digwydd.
- Cyflwyno prosesau annibynnol, pan fydd penderfyniad i gadw yn cael ei wneud ac yn ystod y cyfnod cadw, er mwyn adnabod y bobl hynny a allai wynebu risg arbennig o niwed yn y ddalfa, ac adolygu polisïau a rheolau cadw i sicrhau mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cedwir unigolion o'r fath.
- Sicrhau bod pob carcharor yn cael mynediad effeithiol at weithdrefnau teg a hygyrch i herio'r penderfyniad i gadw neu alltudio, gan gynnwys drwy wrthod gweithdrefn gyflym ar gyfer penderfynu ar apêl mewnfudo neu loches person a gedwir.

¹ UNHCR (2015), '[Bil Mewnfudo 2015: Briff Seneddol ar gyfer Tŷ'r Cyffredin](#)' [agorwyd: 8 Mawrth 2019].

6.3. Cadw iechyd meddwl

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle y bo'n berthnasol:

- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl priodol ac wedi'u hariannu'n ddigonol yn y gymuned i gefnogi anghenion pob oedolyn a phlentyn, gan gynnwys y rhai ag anabledau dysgu a/neu anhwylder y sbectrwm awtistig, er mwyn lleihau'r angen i droi at fynediad anwirfoddol a thriniaeth.
- Cryfhau'r meini prawf ar gyfer cadw pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau bod yr ymyriad lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio, a gwella gallu pobl a gedwir i gael adolygiad amserol ac ystyrlon o'r penderfyniad i gadw/cadw am amser hir. Yn achos pobl y cyfyngir ar eu rhyddid dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sicrhewch eu bod yn cael eu cefnogi a'u galluogi i apelio i'r Llys Gwarchod a chael mynediad at eiriolwr annibynnol.
- Casglu, dadansoddi a chyhoeddi data wedi'u dadgyfuno ar brofiad pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ym mhob lleoliad iechyd meddwl, gyda phwyslais arbennig ar bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, er mwyn deall pwys sy'n cael eu cadw a'u trin ac o dan ba amgylchiadau, a gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gwerthuso'r cynnydd a wnaed yn llawn o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gyda ffocws ar atal cadw diangen.

7. Defnyddio ataliaeth

O ystyried y tebygrwydd a'r rhyngwynebau ar draws sectorau, dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle bo'n berthnasol:

- Hyrwyddo dulliau cyfreithiol a pholisi cyson o atal, yn seiliedig ar egwyddorion hawliau dynol, gyda dysgu traws-sector, yn unol â fframwaith hawliau dynol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer ataliaeth. Dylai hyn gynnwys gwaharddiad ar unrhyw dechneg sy'n achosi poen yn fwriadol i blant.
- Cysoni dulliau o gofnodi digwyddiadau atal er mwyn caniatáu monitro, gwerthuso a dysgu gwell, a data mwy cynhwysfawr a chymaradwy. Bydd hyn yn helpu i adeiladu sail dystiolaeth gadarn i danategu ymdrechion i fynd i'r afael ag ataliaeth, yn enwedig ei ddefnydd anghymesur ar grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol.
- Gwella prosesau cwynion ac ymchwilio fel eu bod yn effeithiol ac yn hygyrch.

- Sicrhau gweithredu sylweddol i weithredu argymhellion a gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dorri safonau hawliau dynol.

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru:

- Gwahardd pob math o gosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys drwy ddi-ddymu'r amddiffyniad 'cosb resymol'.

8. Mesurau gwrth terfysgaeth

Dylai Llywodraeth y DU ehangu ei hadolygiad o'r strategaeth wrthderfysgaeth bresennol i ystyried effaith mesurau presennol ac arfaethedig ar hawliau dynol. Yn benodol, dylai:

- Cyflwyno trothwy ar gyfer amheuaeth resymol am arestio unigolion mewn meysydd awyr a phorthladdoedd, ac unrhyw bwerau newydd a gyflwynwyd yn y maes hwn.
- Lleihau'r cyfyngiad ar gadw cyn-cyhuddo ar gyfer pobl dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr i bedwar diwrnod, yn unol â'r gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr.
- Defnyddio'r adolygiad sydd ar y gweill o Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013 i ystyried a yw gweithdrefnau deunydd caeedig yn gweithredu'n briodol ac, os cedwir hwy, i ystyried ffyrdd o gryfhau tryloywder o ran eu defnydd i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gynnil a dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol.
- Cynnal gwerthusiad llawn o effaith y strategaeth Atal ar gydraddoldeb, cysylltiadau da a hawliau dynol, a sicrhau bod pobl sy'n gyfrifol am Atal mewn cyrff cyhoeddus yn cael eu hyfforddi yn eu rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Sicrhau nad oes gwyrriad o arfer y DU o geisio addewidion diplomyddol na fydd y gosb eithaf yn cael ei defnyddio wrth ymestyn cymorth cyfreithiol cydfuddiannol, ac adolygu'r darpariaethau perthnasol yng nghanllawiau Cymorth Diogelwch a Chyfiawnder Tramor.

9. Cam-drin pobl sy'n derbyn gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Defnyddio'r broses o roi'r Gangen Ymchwilio Diogelwch Gofal Iechyd (HSIB) ar sail statudol i egluro a chryfhau ei rôl wrth gynnal ymchwiliadau sy'n cyd-

fynd â gofynion Erthygl 12 y CAT i ddigwyddiadau diogelwch cleifion ym mhob lleoliad gofal iechyd.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Ystyried sefydlu corff annibynnol i ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch cleifion ym mhob lleoliad gofal iechyd yng Nghymru.

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru:

- Monitro effaith unrhyw ostyngiadau yn argaeledd gofal cymdeithasol oedolion ar urddas a lles pobl hŷn ac anabl, gan gynnwys eu hawl i fyw'n annibynnol.
- Monitro maint yr anghenion nas diwallwyd, a datblygu cynlluniau i gau bylchau yn gynyddol wrth ddiwallu anghenion.

10. Gweithdrefnau Iloches a mewnfudo

10.1. Defnyddio addewidion diplomyddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Sicrhau dilysiad effeithiol a monitro annibynnol ym mhob achos lle ceisir addewidion petai alltudiad yn digwydd, gorau oll os yw'r ddau barti wedi cadarnhau'r Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT).
- Gosod testun pob trefniant alltudiaeth gydag addewidion yn y dyfodol gerbron y Senedd a sicrhau na fydd unrhyw drefniant yn dod i rym cyn i 14 diwrnod eistedd ddod i ben, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall ASau nodi unrhyw wrthwynebiad.

10.2. Nodi a phennu diffyg ddinasyddiaeth

Dylai Llywodraeth y DU:

- Addasu polisiâu a gweithdrefnau'r Swyddfa Gartref ar gyfer cadw gweinyddol trwy orfodi swyddogion mewnfudo i gyfeirio person a all fod heb ddinasyddion, neu mewn perygl o fod heb ddinasyddiaeth, i'r weithdrefn penderfynu os yw person heb ddinasyddiaeth ar adeg y penderfyniad i gadw ac yn rheolaidd yn ystod y cyfnod cadw.
- Gwella cyflymder ac ansawdd y weithdrefn penderfynu os yw person heb ddinasyddiaeth trwy gynyddu nifer y staff sy'n ymwneud â phrosesu ceisiadau a gwella'r hyfforddiant y maent yn ei dderbyn, a thrwy roi cymorth cyfreithiol

am ddim i ymgeiswyr a hawl effeithiol i apelio yn erbyn penderfyniadau mewn achos o wrthod.

11. Trais yn erbyn menywod a merched

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle y bo'n berthnasol:

- Gwella adrodd a chofnodi pob math o drais yn erbyn menywod a merched a chynyddu cyfraddau erlyn ac euogfarnu, gan sicrhau bod heddluoedd yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.
- Sicrhau cynaladwyedd cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod a merched anabl a lleiafrifoedd ethnig.
- Rhoi gweddill y newidiadau i'r gyfraith, polisi ac arfer angenrheidiol yn eu lle i alluogi cadarnhau Confensiwn Istanbul; a
- Gweithredu'n llawn a rhoi adnoddau digonol i'w strategaethau trais yn erbyn menywod a merched, gan weithredu ar draws y llywodraeth ac adrodd ar gynnydd.

12. Cam-drin plant yn rhywiol

Dylai Llywodraethau'r DU a Chymru, lle bo'n berthnasol, gymryd camau mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, yn arbennig drwy:

- Comisiynu arolygiad ar y cyd o ba mor dda y mae'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac asiantaethau eraill yn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr mewn perthynas â dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.
- Cryfhau gallu heddluoedd lleol i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol trwy ailystyried y posibilrwydd o wneud dilyniant o fewn yr heddlu yn ddibynnol ar gyflawni achrediad a phrofiad gweithredol yn y maes hwn.
- Sefydlu lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus, ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw, ar wasanaethau i blant sy'n dioddef cam-drin rhywiol.

13. Trosedd casineb

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o fesurau deddfwriaethol a pholisi sy'n ceisio mynd i'r afael â throseddau casineb. Fodd bynnag, mae lle i wella cyn y gellir

disgrifio'r rhain fel rhai sy'n cynnig fframwaith effeithiol i atal trosedd casineb a diogelu dioddefwyr.

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gwella'r ffordd yr adroddir ar droseddau casineb, gan gynnwys drwy gryfhau sut y caiff adroddiadau trosedd casineb eu trin a'u cofnodi yn gychwynnol; gwella ansawdd y cymorth i ddioddefwyr, gan gynnwys cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cefnogi a'u hysbysu am gynnydd eu hachos; a gwella effeithiolrwydd hyfforddiant trosedd casineb ar gyfer heddluoedd.
- Sicrhau bod ei adolygiad arfaethedig o gyfraith trosedd casineb yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddiwygiadau sy'n darparu amddiffyniad cyfartal a digonol i wahanol grwpiau gwarchodedig, ac sy'n gwella gallu asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddeall a gorfodi'r gyfraith yn effeithiol mewn ymateb i droseddau casineb.

14. Isafswm oedran cyfrifoldeb troseddol

Dylai Llywodraeth y DU:

- Datblygu system sy'n seiliedig ar les, gan gynnwys gwasanaethau ymyrraeth gynnar a therapiwtig ar gyfer delio ag ymddygiad niweidiol i blant; a chodi oedran cyfrifoldeb troseddol yn sylweddol yn unol â safonau hawliau dynol rhyngwladol, gan ystyried unrhyw argymhellion yn Sylw Cyffredinol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd ar y gweill.
- Lle mae angen cadw plant dan oed cyfrifoldeb troseddol oherwydd eu bod yn risg iddynt hwy eu hunain neu i eraill, sicrhau bod mesurau diogelu cyfreithiol cadarn, gan gynnwys awdurdodiad cyfreithiol ar gyfer y penderfyniad i gadw, mynediad i gynrychiolaeth gyfreithiol am ddim ac adolygiadau rheolaidd. Dylid cadw mewn lleoliad nad yw'n cosbi, a dylid ei ddefnyddio fel dewis olaf ac am yr amser byrraf posibl.

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd: : Mai 2019



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission